

---

**Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir y Fflint 2015-2030**  
**Flintshire County Council Local Development Plan 2015-2030**  
**Examination**

**Arolygydd/Inspector: Siân Worden: BA DipLH MCD MRTPI**  
**Arolygydd Cynorthwyol/Assistant Inspector: Claire MacFarlane BSc (Hons) MSc MRTPI**  
**Swyddog Rhaglen/Programme Officer: Kerry Trueman**

---

Mr A Roberts  
Cyngor Sir y Fflint  
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi  
Tŷ Dewi Sant  
Parc Dewi Sant  
Ewlo  
Sir y Fflint  
CH5 3FF.

13 Gorffennaf 2021

Annwyl Mr Roberts,

### **Archwiliad CDLI Sir y Fflint: Atal Dros Dro**

Gobeithiwn eich bod chi a'ch tîm yn iawn ac yn adfer o ddwyyster y gwrandawiadau.

Deallwn y byddwch yn fodlon i'r gwrandawriad ychwanegol ar Warren Hall gael ei gynnal yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 6 Medi er nad yw'r union ddiwrnod wedi ei bennu eto. Ychydig wythnosau yn ôl fe ysgrifennom atoch<sup>1</sup> gyda chwestiynau ac yn gofyn am ragor o wybodaeth cyn y gwrandawriad ychwanegol. Rŵan bod gennym ddyddiad bras ar gyfer hynny, a fydddech cystal ag ymateb i'n llythyr erbyn 23 Awst? Byddai hynny'n rhoi pythefnos i ni, a chyfranogwyr eraill, ei ystyried yn barod ar gyfer ei drafod yn y gwrandawriad.

Mae'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Arolygiaeth Gynllunio a Chyngor Sir y Fflint yn datgan bod rhai amgylchiadau lle gall fod yn angenrheidiol i atal y broses archwilio dros dro. Mae'r rhain yn cynnwys pe nad yw'r Arolygwyr yn gallu symud ymlaen gyda'u hasesiad o gadernid yn sgil pryderon sylweddol sydd golygu mwy o waith. Dyna yw'r sefyllfa bresennol, ac felly rydym ni'n cynnig, y dylid atal archwiliad Sir y Fflint am fis.

Er mwyn gweddu gydag amseroedd cyn y gwrandawriad Warren Hall, awgrymwn y dylid atal dros dro o ddydd Gwener 23 Gorffennaf i ddydd Gwener 20 Awst. Bydd yr amserlen un ar ddeg mis, a ddechreuodd ar ôl i chi gyflwyno'r CDLI ac a fydd yn dod i ben ar ôl i ni ddarparu ein hadroddiad, felly yn cael ei oedi a bydd yn aildechrau unwaith fydd yr archwiliad yn gallu symud ymlaen.

---

<sup>1</sup> INSP010

Mae'r ataliad dros dro yn ddyfais ymarferol sy'n adlewyrchu nad all yr Arolygwr gynnal gwaith archwilio sylweddol tan i ni dderbyn rhagor o wybodaeth. Bydd hyn yn rhoi amser i ni gwblhau'r archwiliad ac ysgrifennu ein hadroddiad ar ôl i'r wybodaeth gael ei ddarparu. Nid yw'r ataliad dros dro yn golygu bod unrhyw feirniadaeth neu wendidau o ran paratodau neu ymgysylltiad y Cyngor, yr Arolygwyr nac unrhyw bartion eraill, gyda'r archwiliad hyd yn hyn.

Mae'r materion sy'n codi o gyngor diweddar ar ffosffad ac afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn fater ar wahân a all hefyd arwain at yr angen am atal dros dro.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y llythyr hwn neu unrhyw agwedd arall o'r archwiliad, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Yn ddiffuant,

*Siân Worden a Claire MacFarlane*

Arolygwyr